# DINESYDD Mawrth ~ Ebrill

*PAPUR CYMRAEG*
*CAERDYDD A'R CYLCH*

1979 Rhif 57


# BYGWTH Y GYMRAEG

**Yn ddiamau, un o'r pethau mwyaf calonogol ym mywyd Cymru ein dyddiau ni yw'r cynnydd a welwyd mewn addysg gyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg i blant o bob oedran. Yr y Ysgolion Gymraeg, traddodiadol a newydd, y gwnaed hyn y bennaf, a bu datblygiad a llwyddiant y rhain yn drawiadol dros ben. Un o'r ardaloedd lle y gwelwyd llwyddiant eithriadol, yn enwedig yn ystod y '70' au, yw Caerdydd.**

Yn ôl adroddiad a baratowyd gan Weithgor Cymdeithas Rhieni Bryntaf, "Addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, Caerdydd 1978-1993", cynyddodd y dylifiad blynyddol o blant a dderbynnir i'r ysgol o 39 yn 1967 i 82 yn 1973, ac i gyfartaledd blynyddol o 102 oddi ar 1975. Ym mis Medi eleni bydd rhieni 105 o blant am iddynt gael eu derbyn ym Mryntaf neu yn yr Ysgol Gymraeg newydd y mae galw mawr am ei sefydlu ar gyfer plant ardal yr Eglwys Newydd a'r cylch, yn adran fabanod bresennol Ysgol Eglwys Wen. Ac i ymdrechion enfawr a dibaid y bobl hynny fu'n gyfrifol am sefydlu'r rhwydwaith o ysgolion meithrin drwy'r ddinas y mae'r diolch am y fath ddatblygiad ardderchog.

Ond nawr, bygythir yr holl gynnydd hwn os gweithredir ar argymhelliad oddiwrth bwyllgor a sefydlwyd gan Bwyllgor Addysg De Morgannwg, sef y dylid cyfyngu ar nifer y plant sydd i gael addysg Gymraeg yng Nghaerdydd i 90 y flwyddyn o Fedi 1979 ymlaen. Da clywed, fodd bynnag, fod Cymdeithas Rhieni Bryntaf yn ymateb yn gadarn i'r argymhelliad adweithiol hwn, ac mewn cyfarfod ar y 22ain o Fawrth wedi cwrdd â rhai o gynghorwyr y Ddinas i draethu eu barn yn glir yn erbyn. Llywydd y Gymdeithas yw Mr.Glyn Jones, a chanddo ef y cafwyd y cefndir canlynol i helynt yr Ysgolion Cymraeg yng Nghaerdydd (WNEWCH CHI SYLWI YN ARBENNIG AR Y TAIR BRAWDDEG OLAF):

Llunir unrhyw bolisi sydd gan Bwyllgor Addysg De Morgannwg ar addysg Gymraeg gan bwyllgor gwaith bychan a sefydlwyd yn wreiddiol yn Hydref 1976. Y mae'r pwyllgor gwaith hwn yn ei dro yn cyflwyno'i argymhellion i'r is-bwyllgor addysg, corff o rhyw ddau gynghorydd ar bymtheg, a hwnnw yn ei dro yn anfon yr argymhellion ymlaen i'r Pwyllgor Addysg cyflawn. Yna, y mae'r Pwyllgor Addysg yn anfon yr argymhellion hyn, os ydyw yn eu cymeradwyo, ymlaen i Gyngor Sir De Morgannwg am ei sêl a'i fendith yntau.

Y mae'r pwyllgor gwaith sy'n llunio'r polisïau gwreiddiol bellach wedi cynnig mai 90 o blant yn unig sydd i'w derbyn i gael addysg mewn ysgol Gymraeg yng Nghaerdydd ym Medi 1979, sef 60 o blant i Ysgol Gymraeg Bryntaf a 30 i Ysgol Gymraeg newydd y bwriedir ei hagor yn Eglwys Wen, Yr Eglwys Newydd. Gan nad yw'r Ysgrifennydd Gwladol tros Gymru eto wedi rhoi ei fendith at y cynllun i agor Ysgol Gymraeg Eglwys Wen, nid yw eto'n sicr gant y cant y bydd yr ysgol honno'n agor. Boed a fo am hynny, ar gyfer 90 o blant yn unig y mae'r Awdurdod Addysg hwn yn bwriadu darparu addysg Gymraeg gyflawn mewn Ysgol Gymraeg.

Y mae drwg yn y caws, fodd bynnag, oherwydd eisoes gwyddys y bydd o leiaf 105 o blant yn ceisio mynediad o ysgolion meithrin Caerdydd i'r Ysgol (ion) Cymraeg ym Medi 1979 ac y mae'r pwyllgor gwaith yn ei ddoethineb yn awgrymu dethol 90 o blant o blith y rhain yn ôl rhai criteria, a'r mwyaf ysgeler yn eu plith yw rhoddi'r flaenoriaeth i blant o gartrefi Cymraeg eu hiaith. Sut yn union y bwriedir gweithredu y polisi hwn o ddethol, nid yw'n hollol hysbys.

Y mae dau achos yn wynebu y rhie ni hynny sydd â'u bryd ar addysg Gymraeg i'w plant a'r rhieni hynny sydd â'u bryd ar eisoes yn derbyn addysg Gymraeg, sef:

1. Yr achos cyntaf, a'r un y mae ei ddatrys yn fater o frys, yw achos y plant hynny a amddifedir o addysg Gymraeg os aiff yr Awdurdod hwn â'i bolisi rhagddo ac os caiff wneud hynny. Y mae rhyw si y byddir yn cynnig lle i'r plant hyn mewn ffrydiau ac unedau dwyieithog sydd ar gael yn rhai o ysgolion Saesneg Caerdydd eisoes. Beth yw ymateb y rhieni i hyn?

Y mae hynny yn dibynnu ar beth a fynnwn i'n plant. Y mae rhieni'r plentyn sydd yn yr ysgolion meithrin yn hollol glir eu nod: mynnant addysg Gymraeg gyflawn mewn ysgol(ion) Cymraeg i'w plant, dim mwy, dim llai. NI FYDD UNRHYW GYFADDAWD AR HYN. Felly, nid yw na ffrydiau nag unedau dwieithog yn ddewis amgenach derbyniol. Y mae rhieni Cymdeithas Rhieni Bryntaf mewn cytgord llwyr a rhieni'r Ysgolion Meithrin. Pe medrai unedau neu ffrydiau gyflwyno addysg hafal i eiddo'r Ysgol(ion) Cymraeg, yna byddai ugeiniau o ffrydiau neu unedau ymhob cwr o ddinas Caerdydd ers blynyddoedd lawer. Hedd i lwch unedau a ffrydiau felly.

Ateb Cymdeithas Rhieni Bryntaf i'r Awdurdod Addysg felly yw: Mynnwn addysg gyflawn Gymraeg mewn Ysgolion Cymraeg i bob plentyn yn ninas Caerdydd i myn ei rieni yr addysg honno iddo. Dyna'r neges a gafodd cadeirydd y Pwyllgor Addysg mewn cyfarfod â Chymdeithas Rhieni Bryntaf nos Iau, yr 22ain o Fawrth eleni.

2. Yr ail achos yw dyfodol addysg Gymraeg yng Nghaerdydd. Teimlodd Cymdeithas Rhieni Bryntaf yn ei chyfarfod blynyddol yng Nghorffennaf 1978 mai un o'i gwendidau oedd nad oedd ganddi nod benodol i anelu ato na pholisi yn ganllawiau iddi i gyrraedd y nod honno. Canlyniad hyn fu argymell i bwyllgor y Gymdeithas sefydlu gweithgor bychan i lunio polisi ar addysg Gymraeg iddi. Cyfarfu'r gweithgor hwn am y tro cyntaf ym Medi 1978 a phenderfynwyd mai'r cynllun gorau oedd darganfod yn glir beth fyddai maint tebygol y galw am addysg Gymraeg yng Nghaerdydd dros y degawd a hanner nesaf ac ym mha rannau o Gaerdydd y byddai'r galw hwnnw, hynny yw, ei leoliad. Cewch hanes y gwaith a gynhyrchwyd dro arall yn y Dinesydd gan y sawl a wnaeth y gwaith caled ar ei gyfer.

Cam nesaf y gweithgor oedd llunio dogfen bolisi yn seiliedig ar yr adroddiad cyntaf. Gwyddem yn awr faint a lleoliad y twf a'r galw tebygol, felly rhaid oedd crisialu hwnnw yn nod ac amcan eglur. Cyrhaeddodd y ddogfen bolisi hon ei ffurf gyn-derfynol cyn y cyfarfod rhwng Cymdeithas Rhieni Bryntaf a Chadeirydd Pwyllgor Addysg De Morgannwg ac fe'i derbyniwyd yn unfrydol gan y rhieni. Y mae ei chynnwys yn haeddu rhifyn arbennig o'r Dinesydd! Felly dyma ni yn Gymdeithas Rhieni bendant a chadarn, ddi-ildio ei hargyhoeddiad a chyda'i nod a'i hamcanion yn glir.

Nid yw'n debygol y bydd Awdurdod Addysg De Morgannwg yn dod i benderfyniad terfynol ar y mater hwn am ryw bum wythnos arall, sef pryd y bydd yr is-bwyllgor addysg yn cwrdd. Yn y cyfamser bydd holl aelodau Cymdeithas Rhieni Bryntaf yn ymgyrchu dros yr achos mewn llythyrau, galwadau teleffon a chyfarfodydd â'u cynghorwyr lleol, y Cyfarwyddwr Addysg, ac aelodau'r is-bwyllgor addysg yn arbennig. Gwahoddir pawb sydd â'r achos hwn yn agos i'w galon i ymgyrchu yn yr un modd. Anfonwch lythyr at y Cyfarwyddwr Addysg, Swyddfeydd y Sir (County Offices), Kingsway, Caerdydd CF1 3JY.

**Gan ein Gohebydd Arbennig.**

**Gŵyl Feithrin**
**Gweler tud. 10**

# Golygyddol

Yn ddiamau, fydd yr hyn a ddigwyddodd ar Ddydd Gŵyl Dewi 1979 yn fater trafodaeth, dehongliad, esboniad, dadlau, ac ymryson am amser hir. "Y dwthwn hwnnw", rhoddodd pobl Cymru, neu tua 60% ohonyn nhw, eu barn ar Ddeddf Cymru, 1978. Ei gwrthod yn glir wnaeth 80% o'r rhai a bleidleisiodd (tua 48% o'r holl etholwyr cofrestredig), gan adael 20% (tua 12% o'r gofrestr) o blaid.

Pam? Rhoddwyd llawer iawn o resymau nad oes yma'r gofod i'w rhestru, ond yn ddiau, o'r cyfan oll, un o'r pennaf oedd y ddadl y byddai'r gost yn feichus, a chredodd llawer o bobl hynny. Ymhlith y rhain oedd y pensiynwyr hynny mewn nifer o ardaloedd y dywedwyd wrthynt gan wrthwynebwyr y Cynulliad y byddid yn talu amdano drwy dorri eu pensiwn!

Bwgan arall y ceisiwyd ei godi, ond na fu'n ystryw mor llwyddiannus oedd yr iaith a'i chysylltiad honedig â 'jobs for the boys'. I'r rheini ohonom sy'n ddigon hen i gofio cyfnod y tri-degau a'r Ail Ryfel Byd, 'roedd tinc cyfarwydd yn hyn. Onid dyna yn union a wnaeth Goebbels a'i gyd-natsaid yn yr Almaen—ceisio dychryn pobl drwy wneud bwgan o'r Iddewon?

Boed a fo am bleidlais Gŵyl Dewi, nid dyna ddiwedd yr hanes. Erys problem yr Alban, lle y cafwyd mwyafrif o blaid y mesur a roddwyd ger bron, beth bynnag a ddywed y cynllwynwyr dichellgar o wrthwynebwyr. Os llwyddir i gael senedd yn yr Alban — ac y mae'n fwy na thebyg y daw—yna a all Cymru fforddio bod heb un, a all hi oddef bod heb un, ar waetha'r ffaith iddi, fel y dywedodd un gohebyd tramor, "boeri yn ei hwyneb ei hun ar ddydd Gŵyl Dewi"?

Yn y cyfamser, mae pethau pwysig i'w gwneud ynglŷn â'r iaith yn ein bro ni ein hunain, fel y dengys y newyddion am y datblygiadau diweddaraf ynglŷn ag Ysgol(ion) Cymraeg dinas Caerdydd. Rhaid inni oll fod yn gefn i'r rhieni yn y mater holl-bwysig yma.

# *Newid Golygydd*

Am gyfnod sylweddol, rhoddwyd gwasanaeth gwerthfawr ac ymroddedig i'r *Dinesydd* gan Medwen Roberts, a fu'n olygydd hyd at y rhifyn diwethaf. Nawr, y mae hi wedi ymgymryd â swydd gyda Chwmni Teledu Harlech, swydd sydd yn mynd â hi allan o Gaerdydd am wythnosau ar y tro, ac sy'n ei gwneud hi'n amhosibl iddi ddwyn baich golygu'r papur mwyach. I Medwen, pob diolch am yr hyn a gyfrannodd, a phob dymuniad da yn ei swydd newydd.

O hyn ymlaen, wnewch chi anfon defnydd i Afallon, 11 Clos Hendre, Llandaf CF5 2HT. *Dyw hi byth yn rhy gynnar* a rhaid i'r defnydd fod yn ein dwylo fan bella *ERBYN Y 15fed O BOB MIS*. Dim ond rhywbeth eithriadol iawn a ddylai fod yn hwyrach, hyd at yr 20fed o'r mis.

Os am roi pwt o newyddion ar unwaith, ffoniwch un o'r canlynol yn ddi-oed:

Shân Emlyn — 751469
Gwyn Lewis Davies — 756882
E. Gunston Jones — 499469
T. Raymond Edwards — 563588

Os gellwch deipio'ch erthygl, stori, etc., neu ei chael wedi'i theipio, bydd yn help mawr iawn.

# O'R POST

**Annwyl Olygydd,**

**Prin y gallem ni ein dau a ninnau ymhlith swyddogion CRB adael i sylwadau eich gohebydd arbennig ar hynt a helynt sefydlu ysgol Gymraeg newydd yn Eglwys Wen fynd heibio heb ymateb iddynt.**

Ein hymateb cyntaf oedd, 'o'r diwedd dyma'r Dinesydd wedi rhoi pwt bach o gyhoeddusrwydd i'r frwydr dros ysgolion Cymraeg yn y brifddinas'. Y syndod oedd mai **hanes y** *gwrthwynebiad* yn unig a roddodd gan ofyn yn hunan gyfiawn ble yr oedd CRB yn sefyll ar y mater hwn. Pam na fuasai eich gohebydd wedi dod i ofyn i'r Gymdeithas drosto'i hun?

Gadewch inni sôn ychydig am CRB. Hyhi yw'r unig gorff sydd yn gwarchod buddiannau dyfodol addysg gynradd Gymraeg yn y brifddinas. Ei mynych bererindota i guro ar ddrws yr Awdurdod Addysg, ei mynych lythyru at y Cyfarwyddwr Addysg a'r Ysgrifennydd Gwladol, ei chyfarfodydd â phwyllgor gwaith yr Awdurdod sy'n ymwneud ag addysg Gymraeg, ei dyfal bwyso a dadlau â chynghorwyr a rheolwyr ysgolion sy'n cadw gobaith datblygu addysg gynradd Gymraeg yn fyw gerbron Awdurdod Addysg De Morgannwg.

A beth am CRB a saga'r Eglwys Wen? Do, fe fu CRB, trwy aelodau ei phwyllgor, yn dyfal doncio ar y Pwyllgor Addysg ynglŷn â'r ysgol hon; do, fe fu mewn cysylltiad â'r gwrthwynebwyr mwyaf ffiaidd yn yr Eglwys Newydd; do, fe drefnodd ddeiseb a chasglu yn agos i 1000 o enwau yn cefnogi sefydlu ysgol Gymraeg newydd yn yr Eglwys Newydd a dangosodd y rhieni eu hochr yn gadarn ac urddasol yn dorf o yn agos i drichant y tu allan i bencadlys Cyngor De Morgannwg y prynhawn y rhoddodd y Cyngor ei sêl a'i fendith ar y cynllun i agor yr ysgol hon. (Ble oedd eich gohebydd arbennig y diwrnod hwnnw tybed?) Ac a wyddoch fod rhieni ymrous yr Eglwys Newydd a'r cylch eisoes wedi ymffurfio yn ddarpar Gymdeithas Rieni ar gyfer yr ysgol Gymraeg newydd — y cyfan dan ysgogiad a nawdd CRB?

Ymhellach bu gan CRB bwyllgor gwaith bychan yn ymroddi i lunio cynllun 15 mlynedd ar gyfer datblygu addysg gynradd Gymraeg yng Nghaerdydd. Y mae'r cam cyntaf yn y gwaith wedi ei orffen trwy adroddiad yn cynnwys dadansoddiad ystadegol manwl o dwf tebygol yn galw am addysg gynradd yn y ddinas, a dosbarthiad y twf hwnnw. Y mae'r adroddiad hwn eisoes gerbron Cyfarwyddwr Addysg De Morgannwg a'i bwyllgor gwaith, a gerbron yr Ysgrifennydd Gwladol. Bydd angen pob cefnogaeth arnom i gael yr Awdurdod i weithredu'r cynllun hwn.

Beth yw'r sefyllfa heddiw? Arhoswn yn bryderus am ddyfarniad yr Ysgrifennydd Gwladol ynglŷn â'r Eglwys Wen; ofnwn weld gwireddu bwriad yr Awdurdod Addysg i gyfyngu mynediad i'r ysgol(ion) Cymraeg yn y brifddinas i 90 o blant y flwyddyn a 108 eisoes i ddod o'r Ysgolion meithrin ym Medi 1979. Erfyniwn ar y Dinesydd ac ar bob sefydliad arall yn ein prifddinas i gynorthwyo CRB yn ei hymdrechion i hybu a datblygu addysg gynradd Gymraeg ar gyfer ein plant ac er mwyn dyfodol yr iaith yn ein prifddinas.

Yr eiddoch yn gywir,

Glyn Jones (Llywydd) CRB
Caryl Davies (Is-Lywydd) CRB

## Gwahoddiad i ddysgwyr

**Annwyl Olygydd,**

**Gofynnwch i ddysgwr Cymraeg beth ydy'r broblem fwyaf wrth ddysgu Cymraeg a dyweda ef — diffyg ymarfer.**

**Wel, mae cyfle i'r dysgwyr gwrdd unwaith y mis yn Nhy'r Cymry, 11 Heol Gordon, Caerdydd (tu ôl i Dŷ'r Mae'r, Richmond Road) yr ail nos Fercher y mis am wyth o'r gloch. Bydd siaradwr yn dod i roi darlith fach i'r dysgwyr. Mae llawer o bobl diddorol wedi dweud wrthon ni am eu gwaith, eu teithiau, eu hamser hamdden, neu eu bywyd.**

**Wedyn, mae cyfle i gael sgwrs, neu ganu neu chwarae gemau a chwisau ac i gael cwpaned o de neu goffi.**

**Dewch, mae croeso i bawb.**

**Linda Hall (Ysgrifenyddes) 8 Pen-y-Dre, Rhiwbeina.**

## Mrs Chappell

Tristwch i bawb oedd clywed bod Mrs Chappell, athrawes Ysgol Feithrin y Waun wedi mynd i mewn i'r ysbyty i gael triniaeth. Gwnaeth yn sicr iddi bleidleisio cyn mynd i Ysbyty'r Mynydd Bychan ar Fawrth laf a deallwn ei bod yn cael adferiad cyflym. Diolch i Mrs Dulcie Jones, Beatty Avenue, am lanw'r bwlch yn effeithiol iawn yn ei habsenoldeb.

'Roedd Mrs Chappell yn gobeithio'n fawr cael dod allan o'r Ysbyty cyn Cyngerdd Mawreddog yr Ysgol Feithrin yn Neuadd y Ddinas.

Deallwn fod Ysgol Feithrin Llysfaen wedi bod yn ffodus iawn i gael Mrs Non Owen, gwraig Arwel, athro ymarfer corff Rhydfelen, a mam Rhodri a Llwyd, yn athrawes am y tymor nesaf. Pob dymuniad da iddi yn ei swydd newydd.

Pob hwyl i Ysgol Feithrin y Crwys wrth chwilio am athrawes hefyd.

# *Dawnswyr yn ciniawa*

I nifer o bobl mae'n siwr, mae hanesion am Gwmni Dawns Werin yr Aelwyd yn fwrn i'w clywed erbyn hyn, ond efallai y bydd y ffaith fod y Cwmni yn hŷn na'r *Dinesydd* yn rywbeth newydd. Yn wir mae'r Cwmni eleni yn dathlu ei ddengmlwyddiant trwy gynnal cinio mawreddog yng Ngwesty'r Parc yng Nghaerdydd. Mae rheswm am ddewis y man swanc yma. Yn 1969 cynhaliwyd cyngerdd cyhoeddus gynta'r Cwmni i Gyngres y Deintyddion, roedd pawb ar ei wên orau.

Pasg y flwyddyn honno aeth y criw i'r Ŵyl Geltaidd ym Mhenzance. Rhyfygus braidd oedd i griw y denims a'r dreigiau coch ddechrau Noson Lawen yng ngwesty'r Albanwyr Prydeinig yn eu kiltiau amryliw a'u sporans prês. Nid oedd y croeso mor wresog â hynny tan i ni ddawnsio ar y noson ola a wedyn dyna newid, trueni am yr amseriad.

Y dyddiau hynny criw rhyfygus on ni. Cystadlu yn yr Urdd yn Aberystwyth, Steddfod Charlie, ag ennill ar y cais gynta, dod yn ail o un pwynt i Deithwyr y Ddawns yn 'Steddfod y Fflint, ac heb glywed erioed am Gymdeithas Ddawns Werin Cymru. Cystadlu fu'r hanes o hynny ymlaen, llwyfan deng mlynedd yn olynol yn y Genedlaethol, dim ond colli'r llwyfan unwaith yn yr Urdd. Ennill yr Urdd ddwy waith a'r Genedlaethol dair, colli o un pwynt rhyw saith neu wyth o weithiau, dyma'r straeon sy'n fwrn, ac yn hen bryd eu hanghofio, efallai y câf awen o sôn am rywbeth arall.

Er bod cystadlu'n bwysig, rhan fechan iawn yw o weithgaredd y Cwmni, wythnos o ymarfer yn unig y caiff y Genedlaethol fel arfer. Daeth y gwyliau dawns a theithio'n rhan hanfodol o weithgaredd yr haf. Gan fod yn awr ddwy ŵyl ddawnsio flynyddol yng Nghymru, pleser mawr yw eu mynychu er bod cynnal ein gŵyl ni, 'Gŵyl Ifan', yn rhoi cryn bwysau ar aelodau'r criw. Mae teithio i ŵyl Cymdeithas Ddawns Werin Cymru bob amser yn waith cariad, mae penwythnos yn Ninbych y Pysgod ar ddiwedd mis Gorffennaf yn codi'r awydd i godi sodle a chicio'r trâd. Y llynedd buon ni'n lwcus iawn i gael ein gwahodd ddwywaith i Lydaw, i dre Naoned y tro cyntaf, ac i ŵyl yr eilwaith. Misoedd prysur iawn oedd Mehefin, Gorffennaf ac Awst '78.

Er y cychwyn cynta yn nwylo John Watcyn y BBC ac Arabia, dim ond dwy o'r criw sy wedi aros, Christine Jones, sy wedi bod yn arweinydd er Steddfod y Barri a Gillian James, sy nawr yn wraig i'r Cadeirydd er iddi gadeiryddio'r Cwmni yn ei henw ei hun am fwy nag un flwyddyn. Rhannodd tîm gwreiddiol John, un rhan am fynd i'r Gyngres Geltaidd yn Fougères a'r lleill yn methu mynd ond am gystadlu yn y Steddfod. Gill a Christine yn teithio i'r ysgol gyda'i gilydd ar ôl yr haf yn dyfaru nad oes tîm dawns yng Nghaerdydd yn enwedig gan fod nifer o ddawnswyr profiadol o gwmpas. O'r sgwrs yma crewyd y Cwmni. Diolch i John Watcyn am y syniad a'r brwdfrydedd gwreiddiol a diolch i Pete Morgan a John Phillips, Tonteg, am yr egni i gario mlaen yn y blynyddoedd cynnar.

Hanes maleisus efallai methu a dyfalu'r ddawns Sawdl y Fuwch a dal Ifan Isaac un noson yn y Ganolfan a gofyn am ei syniadau. Bu pawb am awr yn meddwl, crafu pen a chraffu cyn sylweddoli bod y bechgyn ar yr ochr anghywir i'w partneriaid. Does neb yn anffaeledig. Canu trwy Llanofer gan nad oedd cerddor, ac mae pawb yn awr yn cwyno bod ein Llanofer ni yn rhy araf.

Gyda llaw mae 'na bobl dalentog anhygoel wedi bod gyda'r Cwmni. Meida Morris, Beynon gynt, yn chwarae am gyngerdd awr a hanner yn y Werddon ar ôl colli pob copi. John Jones yn clocsio ar ben bwrdd yn y Llew Coch, Tregaron am bedwar y bore. Geoff Howe yn dysgu Cymraeg ac yn awr yn dysgu'r iaith i blant Powys. Howard Potter, Cockney yn dod yn rhugl yn y Gymraeg ac yn awr yn gyfarwyddwr ariannol y TSB. Elsbeth Williams yn sal hanner ffordd drwy Ŵyl Ifan mewn rhagbrawf a dal i wenu tan y diwedd. Gill James a llond pen o biniau yn gorffen Rali yn edrych mwy fel Dracula na dim arall. Sue Howe yn canu 'Cushy Butterfield' am dri y bore yn Arnhem, ac ymlaen ac ymlaen, straeon rhif y gwlith.



# O YSGOL LLANHARI

**Dros y Pasg bydd parti o Ysgol Llanhari yn ymweld â Lesneven yn Llydaw. Mae ganddyn nhw gysylltiad â'r Ysgol yno, a byddan nhw'n aros yng nghartrefi plant yr ysgol hon. Y flwyddyn nesaf tro plant Ysgol Lesneven i ddod yma ac aros yng nghartrefi plant Ysgol Llanhari fydd hi. Bu'r cyfnewid hapus hwn bob yn ail yn digwydd ers rhyw ddwy neu dair blynedd. Bydd cyfnewid tebyg yn digwydd adeg y Pasg a Gorfennaf/Awst rhwng plant o Ysgol Llanhari a phlant o ysgol yn Munich, ym Mafaria, yr Almaen.**

## CYSTADLEUTHAU GŴYL DEWI.

**Yng nghystadleuthau Gŵyl Dewi y Western Mail eleni eto, bu nifer o blant lleol yn llwyddianus fel y dengys y rhestr ganlynol o enillwyr yn yr Adran Gymraeg.**

**GRWP A (Ysgolion Cynradd)**

**Ail Wobr (£10) Geraint Ellis Pritchard, 10 oed, Ysgol Bryntaf.**

**Gwobr Canmoliaeth Uchel: (£2) Margred Frances Ann Pryce, 10 oed, Ysgol Bryntaf.**

**GRWP B.**

**Ail Wobr (£15) Karl Harrison, 13 oed, ysgol Rhydfelen.**

**Gwobr Canmoliaeth Uchel: (£3) Roland Martin Powell, 11 oed, Ysgol Glantaf;**

**Sian Befan Shakespear, 13 oed, Ysgol Rhydfelen.**

**GRWP C.**

**Gwobr Gyntaf: (£20) Huw Aled Lewis, 13 oed, Ysgol Rhydfelen**

**Gwobr Canmoliaeth Uchel: (£3): Branwen Davies, 14 oed, Ysgol Rhydfelen;**

**Betsan Powys, 13 oed, Ysgol Llanhari**

**GRWP D.**

**Gwobrau Canmoliaeth Uchel (£5): Meinir Angharad Jones, 16 oed, ysgol Rhydfelen;**

**Marian Lewis, 17 oed, Ysgol Rhydfelen;**

**Rhys Powys, 16 oed, Ysgol Rhydfelen.**

**Llongyfarchiadau iddynt oll!**

# Diogelu'r gorffenol yn y Tabernacl

**Cefais gyfle i glywed *Requiem* Fauré ddwy waith yn ddiweddar, heb imi erioed glywed y gwaith o'r blaen. Dau berfformiad o dan amgylchiadau tra wahanol, a'r pleser a gafwyd o wrando arnynt yn wahanol ond yr un mor foddhaol.**

Côr o fyfyrwyr o Goleg Cerdd a Drama Cymru a glywais yn canu'r tro cyntaf yn Eglwys Gadeiriol Llandaf — côr o leisiau ifanc yn canu mewn awyrgylch arbennig o addas gan mai ar gyfer côr o fechgyn ifanc yn Eglwys Notre Dame, Paris, yr ysgrifennwyd y gwaith. Roedd gwrando ar burdeb lleisiau a pherffeithrwydd y canu yn wledd, a'r sŵn yn esgyn fel canu angylaidd.

Rhyw fis wedyn, clywais Gôr y Tabernacl, Caerdydd, yn canu'r gwaith yn eu cyngerdd ar y degfed o Fawrth — côr â mwy o brofiad o ganu gyda'i gilydd mewn awyrgylch mwy cartrefol i mi, ond yn canu gyda'r arddeliad na cheir mohono ond gan gôr hŷn. Mwynheais y perfformiad hwn hefyd.

Ond yn ddiamau, prif arlwy'r wledd oedd y perfformiad o *Ddewi Sant* gan Arwel Hughes a oedd ei hun wrth yr organ yn ysbrydoli'r berfformiad. Comisiynwyd y gwaith hwn gan Gyngor y Celfyddydau ar gyfer Gŵyl Prydain, 1951, y geiriau o waith Aneirin Talfan. Roedd y cytgan agoriadol, *Molwn Di*, yn ardderchog ond fe gododd y côr i'w uchelderau yn y cytgan olaf.

Pobl ifanc oedd yr unawdwyr yn y ddau gyngerdd — David Gwesyn Smith — enillydd gwobr Osborne Roberts yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd — a Llinos Williams yn Llandaf, a Hilary Jones, Wynford Evans ac Eric Roberts yn y Tabernacl. I mi, yr uchafnod oedd Hilary Jones yn canu'r *Pie Jesu* (Fauré).

Yr arweinydd yn Y Tabernacl oedd Owain Arwel Hughes, sydd bellach wedi hen ennill ei blwyf ymhlith arweinyddion cyfoes. Roedd cyd-ddealltwriaeth perffaith a hapus rhwng yr arweinydd a'r côr, yn deillio, efallai, o'r ffaith iddo gael ambell bractis bach hefo'r côr hwn yn ei ddyddiau cynnar fel cyw arweinydd.

Gallech deimlo'r cydweithrediad rhwng yr arweinydd a'r organydd a phrin na allech ddychmygu ambell winc rhwng y ddau!

Eglurhad i'r gynulleidfa gan Y Parchedig Raymond Williams, gweinidog Y Tabernacl, mai achlysur i agor cronfa diogelu ffenestri lliw'r capel oedd y cyngerdd. Gosodwyd y rhain, rhai eithriadol o hardd, yn 1930, fel arwydd gweledol o barch yr eglwys i goffadwriaeth Y Parchedig Charles Davies a fu yn Y Tabernacl o 1888 hyd at 1927. Erbyn hyn, mae'n rhaid meddwl am eu diogelu ac mae'r gost y dyddiau hyn yn arswydus o uchel. Fe gynigiodd Owain Arwel ei wasanaeth o "lafur cariad" i'r Tabernacl, ei fagwrfa ysbrydol, a gwnaeth yr unawdwyr yr un fath. Mawr yw ein diolch iddynt.

Awgrymodd rhywun i mi mai braidd yn anffodus oedd hysbysebu ar fwrdd hysbysu'r Tabernacl, "DEWI SANT — REQUIEM" yn y cyfnod o gwmpas Mawrth 1, 1979! Yn wir, roedd gweddi'r côr am i Dewi Sant eiriol dros ein gwlad yn un daer. Ond roedd eu canu yn rhan o ymdrech ymarferol i ddiogelu tamaid o harddwch sy'n coffau mawredd y gorffennol — a'i drosglwyddo i'r oesoedd a ddêl.

Diolch i bawb am eu hymdrechion, a diolch hefyd am y pleser a'r mwynhad a gafwyd o wrando arnynt.

# *O BENFRO I LUNDAIN*

## 29 Mawrth — 28 April

Bu golygfeydd gwledig yng ngorllewin Cymru yn eithriadol bwysig i ddatblygiad crefft yr artist Graham Sutherland — o'r dydd yr ymwelodd gyntaf â'r ardal ym 1934. Ym 1976 cyflwynodd ef a'i wraig ddetholiad o'i waith i'r genedl, gan gynnwys darluniau olew a dyfrliw, lluniadau, lithograffau, enghrafiadau ac acwantitau. Cyflwynwyd y rhodd hael hon fel cydnabyddiaeth yr artist o'r ysbrydoliaeth a gafodd yn y wlad o gwmpas Sir Benfro, a chafwyd cartref i'r gweithiau yn oriel newydd Graham Sutherland yng Nghastell Picton, Y Rhos, ger Hwlffordd.

Yn ystod mis Ebrill bydd detholiad o'r gweithiau yn cael ei arddangos yn Marlborough Fine Art, 6 Albermarle Street, Llundain. Hwn fydd y tro cyntaf i ddetholiad helaeth o'r casgliad i gael ei arddangos y tu allan i Gymru. Dywed trefnwyr yr arddangosfa bod yr amgylchiad yn tanlinellu pwysigrwydd cynyddol casgliadau Cymraeg.

Gweinyddir Oriel Graham Sutherland ar ran Ymddiriedolaeth Castell Picton gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Trefnir yr arddangosfa yn Llundain mewn cydweithrediad ag Adran Celf yr Amgueddfa a bydd ar agor o 29 Mawrth — 28 Ebrill 1979.


ATHROFA GOGLEDD-DD CYMRU

**CWRS YSGRIFENYDDOL UWCH YN Y GYMRAEG I RADDEDIGION A MYFYRWYR GYDA DAU LEFEL "A"**

PWRPAS

[illegible]

CYMWYSTERAU

[illegible]

Neu

Dau lefel "A" yn cynnwys "Cymraeg"

SUT GWRS YW E?

[illegible]

SWYDDI

[illegible]

[illegible] Mawrth 1979 at:

Mr F. Roberts
[illegible]
Athrofa Gogledd-ddwyrain Cymru
Coleg Cartrefle
WRECSAM
Clwyd

# O'r Ganolfan

## Croeso Gŵyl Ddewi Merched y Wawr Caerdydd i Ddysgwyr y Ganolfan

Bob blwyddyn ers nifer o flynyddoedd nawr mae cangen Caerdydd o Ferched y Wawr wedi estyn croeso Gŵyl Ddewi i Ddysgwyr y Ganolfan ac eraill sy wedi troi i mewn. Eleni, yn lle cael tipyn o gyngerdd gydag eitemau a chyd-ganu a chlonc uwch paned o de, fe gafwyd sesiwn o siarad anffurfiol mewn grwpiau bychain a barodd am bron i awr rhwng aelodau'r Gangen a'r Dysgwyr. Cafwyd hwyl anarferol ar y gwaith ac i gloi'r noson cafwyd dysglaid o gawl cennin, caws a rôls. Rhoddodd Lisa Erfyl, Llywydd y Gangen, air o groeso ac anogaeth i'r Dysgwyr ddal ati a diolchwyd i'r Merched gan Gwilym Roberts, trefnydd Cyrsiau Cymraeg y Ganolfan. Roedd tua chant yn bresennol a mawr oedd mwynhad pawb a ddaeth.

Mae trefniadau ar y gweill unwaith yn rhagor i gynnal ein Nofio Nawdd blynyddol. Yn y gorffennol mae'r elw a ddaeth i law wedi mynd i hybu gwaith y Pwyllgor Rheoli o gynnal y Ganolfan. Eleni, fodd bynnag, teimlwyd y dylai y Pwyllgor Sir a'r Pwyllgor Rheoli wneud un ymdrech ar y cyd i gefnogi gwaith yr Urdd yn lleol ac yn genedlaethol. Gyda'r nod hwn mewn golwg, penderfynwyd eleni rannu yr elw yn gyfartal rhwng cynllun £1 y pen a chronfa'r Ganolfan. Mae hwn yn gyfle da i holl adrannau y Sir, boed rhein y yn adrannau pentre neu ysgol, i gefnogi yr ymdrech hon. Dyw cyfraniad Sir De Morgannwg at gynllun £1 y pen ddim at ei gilydd wedi bod yn hael iawn a theimlwn y gellir gwella ar hyn. Dyma'r manylion felly:-

Dyddiad : Nos Sadwrn, Mai 19.
Amser : 6.00 - 7.00 plant 7.00 - 8.00 oedolion
Ffurflenni : Ar gael o'r Ganolfan neu oddiwrth Carwyn Davies (ffôn: 708253)
Adrannau Ysgol : Bydd pob ysgol o fewn y Sir yn derbyn cylchlythyr.


*Mudiad Ysgolion Meithrin*

**Clerc/Teipydd**

Gwahoddir ceisiadau am Swydd Clerc/Teipydd (llawn amser neu ddwy hanner amser) yn Swyddfa'r Mudiad yng Nghaerdydd. Gwybodaeth drwyadl o'r Gymraeg yn angenrheidiol. Ond nid i bwrpas llaw-fer.

*Manylion llawn a ffurflen gais oddi wrth*
*Y Cyfarwyddwr,*
*Mudiad Ysgolion Meithrin,*
*89 Heol Llanishen Fach,*
*Rhiwbeina,*
*Caerdydd.*


# Gornest snwcer — Ken yn ben

Mae rhaglenni fel 'Pot Black' a'r darlledliad o ornest dartiau'r byd yn ddiweddar wedi sierhau rhyw barchusrwydd i chwaraeon traddodiadol y 'cari dyms' lleol.


Yn sier, ar ôl gweld cystadleuaeth snwcer rhieni aelodau'r uwch adran yn ddiweddar, yr unig ffordd i ddod ymlaen yn y byd heddiw yw drwy afael yn y ciw. Edrychwch ar bedigri'r snwcerwyr isod.

Dyfed Glyn Jones a Myrfyn Owen — cynhyrchwyr teledu
Owen John Thomas — Ymgeisydd Seneddol
Harri Pritchard Jones — Seiciatrydd
Arwyn Jones a Ken Innes — Prifathrawon
Merfyn Jones — Swyddog Bananas
Bryan Jones — Cyfarwyddwr
Gren Samuel — Gweinyddwr

Ar ôl y rowndiau rhagbrofol, ble y trechwyd un o'r ffefrynau Bryan Jones (cyn bencampwr stiwt y Rhôs) gan Arwyn Jones (ciw ei hun), aeth Myrfyn Owen, Arwyn Jones, Ken Innes a Gren Samuel ymlaen i'r rownd gyn-derfynnol.

Cafwyd gêm weddol agos rhwng Arwyn a Gren ond 'doedd Ken fawr o amser yn trechu Myrfyn druan. Bu Myrfyn ar y blaen am ychydig — diolch i'r pedwar pwynt "time faults" a gafodd gan Bryan Jones!

'Roedd maes y gâd yn barod am y frwydr fawr rhwyng y ddau geffyl blaen, Arwyn Jones a "Hurriken" Innes. Yn y ffram gyntaf aeth Ken i ffwrdd fel milgi ar ôl 'sgyfarnog ac enillodd y gêm bron cyn i Arwyn sialcio ei giw. Cododd Arwyn ei socs yn yr ail ffram ac wrth fynd i bocedu'r bêl frown 'roedd o ddau bwynt ar y blaen. Yn anffodus methodd a rhoi'r bêl i ffwrdd. Roedd Ken Innes ar ei orau a rhoddodd arddangosfa botio i bawb gan Ianhau'r bwrdd. Derbyniodd y ddau eu gwobrau haeddiannol. Diolch i bawb a chwaraeodd yn yr ornest, ymuno yn yr hwyl, a thrwy hynnu chwyddo ychydig ar boced y ganolfan yn ogystal a phocedi'r bwrdd snwcer.



**Ken Innes y pencampwr yn clirio'r bwrdd.**

# PYTIAU

### HELÔ, SIÔN?

Neu, Siôn Gwilym Williams, i roi iddo'i enw llawn — cyntafanedig Selwyn a Beryl Williams, Berwyn, Cefn Coed Avenue, Caerdydd. Daw Selwyn o dueddau'r Rhos yng Nghlwyd a Beryl o'r Felindre, Castell Newydd Emlyn. Maen nhw wedi cartrefu yng Nghaerdydd ers cryn amser, bellach, ac yn awr yn bwrw gwreiddiau o ddifrif.

Llongyfarchiadau i Brian ac Eleri Rodgers! Ar Fawrth laf, Dydd Gŵyl Dewi ganwyd merch fach iddynt, Catrin Ann, yn Ysbyty'r Mynydd Bychan. Mae Eleri wedi bod yng Nghaerdydd ers blynyddoedd bellach — yn dysgu Saesneg yn Llanhari ac yn Rhydfelen. Darlithydd Mathemateg yw Brian sy wedi dysgu, Cymraeg yn arbennig o dda. Newyddion ardderchog wir, a nhw bellach yn dri!

Ar Fawrth 18fed yn oedfa'r Bore yn Heol y Crwys, bedyddiwyd Siân Elin, merch fach i Tony a Nansi Couch, 19 Queen's Wood, Llanedeyrn. 'Roedd croeso mawr iawn iddi yno.

Ar Fawrth yr ail, ym Mrwsel, ganwyd y pedwerydd plentyn i Elenid (née Williams) a Dyfrig Jones. Bu Elenid a Dyfrig yn byw yn ei tro yng Nghaerdydd. Newyddion ardderchog amdanynt ill dau — ond brysiwch adre, da chi!

Llongyfarchiadau i Carol a Dave Solomon ar enedigaeth eu hail ferch fach, Nia, yn Ysbyty'r Mynydd Bychan ar Fawrth 16eg — disgybl arall i Ysgol Feithrin y Waun!

### CROESO I'R DDINAS

Croeso i'r ddinas i Philip Wyn Jones a'i deulu. Gan fod pethau'n digwydd yn lled sydyn, dydyn ni ddim yn gwbl sicr a yw'r teulu i gyd wedi cyrraedd. Deallwn fod Mr Jones wedi prynu tŷ yn nhueddau Llandaf. Mae Mr Jones yn gweithio gyda'r Cyd-bwyllgor Addysg Cymreig. Dymunwn ichi fywyd hapus ym mro Caerdydd.

### MYND A DOD

Mae i bob dyrchafiad ei lawenydd a'i dristwch. Roedd pawb yn falch o ddeall fod R. Alun Evans wedi'i ddyrchafu yn Bennaeth Adran Bangor o'r BBC, ond yn teimlo'n chwith o ddeall y bydd rhaid iddo ef, Rhiannon, Rhys a Betsan ein gadael am dueddau Eryri, a hwythau ond newydd symud i'r cartref newydd ar fin y llyn. Bydd yn wir flin gennym eich colli — ond ar yr un pryd, pob hwyl a bendith ichi yn eich bro newydd.

Rhywbeth yn debyg yw hanes Richard a Nia Hall Williams, dau o gewri'r Dinesydd. Mae'r cartre wedi bod yn agored ac yn llawn o groeso i sawl un o bwyllgorau'r Dinesydd, a'u cymwynasau'n ddifesur. Ond yn ddiweddar, clywodd Richard ei fod yn gadael ei waith yng Nghaerdydd ac yn symud i swydd gyfrifol gyda'r Swyddfa Gymreig yn Aberystwyth. Maen nhw wedi prynu tŷ yno erbyn hyn — ond bydd y bwlch ar eu hôl yn y ddinas yn fawr. Eto, pob hwyl a bendith i chi eich dau a'ch teulu bach.

Yn Eisiau: Ar Fyrder

Llety i fyfyriwr meddygol yn ei bumed flwyddyn, yn gyfleus i Ysbyty'r Mynydd Bychan.

Cysyllter â David Morris; d/o Jones, ffôn 755184

COLOFN BERSONOL.

Carafan yn cysgu 4 i'w gosod o Fis Mai hyd Mis Medi — Jones, Faerdre, Botwnnog, ger Pwllheli, Gwynedd.

....................

**Carai Pwyllgor y Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru am ei chefnogaeth ariannol.**

## CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mr. Gareth Reynolds, Ysgol Gyfun Rhydfelen ar golli 'i fam yn sydyn dros ben.

Gofid mawr oedd clywed am farwolaeth Mr. David Blackwell, myfyriwr yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd. 'Roedd yn organydd yng Nghapel Llwynpiod, ger Tregaron, yr eglwys a fagodd y bardd Kitchener Davies.

Cydymdeimlwn â Mr. Alun Ogwen a Miss Elen Ogwen ar golli'u mam yn rhyfeddol o sydyn ym Mis Ionawr.

# Esther yn dal i wefreiddio

**Roedd Theatr y Sherman yn llawn dop nos Fawrth, Mawrth 13eg, pan oedd Cwmni Theatr Cymru'n rhoi ei ddehongliad ef o *Esther* (Saunders Lewis) — a dehongliad gwefreiddiol ydyw. Roedd amryw ohonom wedi gweld y ddrama o'r blaen, wedi gweld gwahanol ddehongliadau, ar lwyfan ac ar sgrin deledu ac ati — ond roedd hwn fel fflam o newydd, ac fel fflam, hefyd, yn deifio i'r byw.**

Mae'n anodd gwybod ble i ddechrau canmol. Rhaid rhoi clod i David Lyn, y cynhyrchydd am gynhyrchiad cynnil ond llawn dychymyg. Roedd Maureen Rhys yn feistrolgar fel Esther, yn gallu newid ei mŵd a thempo'i chwarae'n gampus. Cafwyd perfformiad celfydd gan Stewart Jones, hefyd, fel Haman, yn ei gryfder ac yn ei wendid. Roedd rhyw urddas effeithiol yn Mordecai Glyn Williams, a'r brenin Ahasferus yn llawn awdurdod. Ac enillodd Cefin Roberts ein serch yn llwyr gyda'i actio direidus, effeithiol.

Roedd hyd yn oed y set yn rhan o'r chwarae ar hyd y ffordd. Bydd y rhai a welodd y ddrama yn gallu cytuno â ni ein bod yn cael ein tynnu i mewn i'r ddrama yn union ar ôl dod i mewn i'r theatr, ac roedd yn mynnu aros gyda ni ar derfyn yr act olaf . . . hyn oherwydd y cawell-gwersyll erchyll a'n hwynebai.

Fe ofynnodd un o brif weinyddwyr Cwmni Theatr Cymru mewn cyfarfod yn y ddinas beth amser yn ôl, "Beth sy raid ei wneud, dwedwch, i gael pobol Caerdydd i'r theatr?" Fe gafodd sawl ateb i'w gwestiwn, ond yr ateb cliriaf o ddigon oedd hwnnw a gafwyd yn y perfformiad o Esther — perfformiad a barai inni fod yn falch fod dramodydd mor gelfydddreiddgar â Saunders Lewis yn dal i fyw yn ein plith, a bod gennym dechnegwyr llwyfan o bob gradd i fynegi ei freuddwyd mewn theatr a oedd, i mi, beth bynnag, yn wir broffesiynol bob cam o'r ffordd.

# CYMANFA GYDENWADOL LEWYRCHUS

**Gwych o beth oedd gweld tyrfa dda yn dod ynghyd i Gapel Newydd Ebeneser, Heol Siarl, brynhawn dydd Sul, Ionawr 28ain i Oedfa Gyd-enwadol a hithau ar ganol eira trwm.**

Mae'n amlwg bod doniau disglair ymhlith pobl ifanc y capeli yn y Ddinas; nhw fu wrth y llyw yn ein tywys ni trwy'r Beibl o Genesis a'r Creu hyd at yr Atgyfodiad a'r argyhoeddiad, "Mi wn fod fy Mhrynwr yn fyw".

'Roedd hi'n fendigedig gweld rhai o'r Ysgolion Sul lleiaf yn gwneud eu gwaith yn dda iawn: Capel Bethlehem, Splott, a Bethel, Penarth, yn cael eu cynrychioli'n ardderchog. Fe fyddwn yn cofio'n hir frwdfrydedd plant Ebeneser yn cyflwyno'r 'Samariad Trugarog', plant y Tabernacl yn cyflwyno'r Pregethwyr gyda chân Mary Hopkin 'Tro, Tro, Tro', darlleniadau Eglwys Dewi Sant, Minny Street, a'r Heuwr, a phlant Heol y Crwys yn Cyflwyno'r Croeshoeliad. Diolch iddyn nhw i gyd am gyflwyno'r 'Gair a Byw', a diolch i Miss Rhiannon Rees, athrawes ddrama Llanhari am eu cyfarwyddo mor effeithiol.


Amgueddfa Werin Cymru

**YSGOL BASG 1979**

MERCHER, EBRILL 18-20 — GWENER

CANOLFAN ADDYSG
BRESWYL Y DYFFRYN
SAIN NICOLAS,
GER CAERDYDD

**LLÊN GWERIN Y CYMRO**

Trafodir:
DEFNYDDIAU LLAFAR,
ARFERION, CHWARAEON,
COELION GWLAD

*Manylion pellach oddi wrth:*
*Y Trefnydd, Ysgol Basg 1979,*
*Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan.*
*Caerdydd. Ffôn: (0222) 569441*

# COLOFN Shân Emlyn

**Rhyw greadur efo mwy o galon nag o ben ydw i, a theimlaf fy mod wedi cael celpan galed iawn heddiw. 'Sgrifennaf y pwt yma wrth wylio canlyniadau'r refferendwm yn llifo i mewn. Boddi yw boddi mae'n debyg ond eto fel creadures yn llawn anghysonderau fe fuasai'n well gen i foddi dipyn yn nes at y lan. Byddai mwy o siawns i rywun gael ei adfer fan honno.**

'D'allai ddim bod yn siwr a fyddai bywyd y Cymro Cymraeg ar ei ennill o gael Cynulliad ond yr hyn sy'n fy nhristáu heddiw yw bod y ffigyrau trychinebus yn rhoi'r argraff mai llugoer ar y naw yw Cymreictod ein cenedl. Dyna i mi sy'n drist — nid methiant cefnogi ffurf ar lywodraeth. Ydy hi ar ben arnom fel Cymry Cymraeg?

Arwyddocaol i mi yn bersonol oedd bod y Refferendwm wedi disgyn ar Fawrth y 1af, ar y diwrnod pan adawodd fy ngŵr ar daith ffilmio i'r Gymru bell ym Mhatagonia. 'D'allai lai na gofyn y cwestiwn i mi fy hun — ai yr un yw tynged Cymru â thynged y freuddwyd nas gwireddwyd yn y Wladfa?

'Sgrifennodd Nantlais emyn i'r Wladfa — erbyn heddiw mae'r geiriau bron â bod yn amherthnasol gan fod dirywiad y bywyd Cymraeg wedi bod mor gyflym yn y Wladfa oddi ar 'sgrifennu'r emyn hwn. Gellid llunio pregeth ysgytwol — o safbwynt crefydd a gwladgarwch, gan ddefnyddio'r emyn hwn a'i holl gysylltiadau fel testun — a chymharu hynt a thynged y Wladfa ochor yn ochor a thynged Cymru. I ble'r awn ni o fan hyn? Mae gen i ofn meddwl.

*Draw draw tu hwnt i'r moroedd*
*Mae brodyr inni'n byw*
*Arloeswyr yr anialdir*
*Sy'n dal i ofni Duw*
*Preswylwyr glannau'r Camwy*
*A godre'r Andes fawr*
*O! Arglwydd anfon arnynt*
*Dy Ysbryd Glân i lawr.*

*Un ydynt hwy a ninnau*
*Un yw eu ffyrdd a'u hiaith*
*Emynau glan yr henwlad*
*Yw mawl addoldai'r paith;*
*Ond cryf yw llif estroniaid*
*A'u tery ar bob llaw*
*O! Arglwydd cofia'r Cymry*
*Ym Mhatagonia draw.*

*Gyrr dy fedelwyr newydd*
*I'r maes, dirionaf Dad*
*A chalonoga'r gweithwyr*
*Sydd yno'n hau yr had*
*O gael eu ffydd yn gryfach*
*Ac iaith eu plant yn fyw*
*Fe droir holl dir Ariannin*
*Yn ardd i'r arglwydd Dduw.*

**Shân Emlyn**

# PILYN NEWYDD

**'Chwaethus iawn', 'hardd iawn', 'yn llanw'r bwlch yn wych'. Dyna'r math o groeso a gafodd rhifyn cyntaf *Pais* yn Eisteddfod Caerdydd — a'r rhyfeddod yw ei bod wedi ymddangos yn fisol byth oddi ar hynny er clod mawr i'r merched sydd ynglŷn â hi.**

Mae'n cynnwys tipyn o bob dim sy'n apelio at ferched — ffasiwn, bwyd, problemau, llyfrau, ffilmiau, erthyglau cymdeithasol. I mi, mae'r adran ffasiynnau'n ddiguro. Mae'r dillad o fewn cyrraedd y rhan fwyaf ohonom ac mae'r prisiau'n rhesymol, a phan fo oriau siopa dyn yn brin mae'n braf cael gwybod beth y dylai'r fe... smart fod yn ei wisgo. A pheth arall ardderchog am yr adran hon, a *Pais* drwyddi draw, yw fod y modelau yn ferched lleol. Mae "*Pais* yn sgwrsio â:" bob amser yn denu. Does dim yn fwy diddorol — o bell, beth bynnag — na chlecs am fywydau pobl y cyfryngau. Ac fe allwn fynd ymlaen i sôn am y bwyd ac am y straeon byrion.

Ac eto, wedi dweud y pethau hyn, mae'n rhaid imi gyfaddef mai pori yn y cylchgrawn yr ydw i ac nid ei ddarllen o glawr i glawr. Ac mae hyn wedi bod yn fy nwysbigo ers tro ond erbyn hyn rwy'n gwybod y rheswm, yn rhannol beth bynnag. Mae'n gynhyrchiad rhy chwaethus, mae print brown ar bapur melyn yn anodd i'w ddarllen, mae'r cysodi'n rhy fanwl a'r print yn rhy fân. Ni wneir unrhyw ymgais i dynnu'r llygaid neu i hoelio'r sylw ac felly mae'r erthyglau ar drais ac ar hawliau merched yn cael bod heb eu darllen. Mae hynny'n drueni gan fod ôl diwydrwydd a chydymdeimlad mawr ar y rhai a ddarllenais.

Ma yna un gwendid arall hefyd. Mae'r cyfan yn cael ei sgrifennu gan bobl o'r un genhedlaeth, cnewyllyn o ferched ac ambell ddyn sy'n digwydd bod yn gyfaill, a'r rheiny'n bobl ddifrifol iawn. Mi fyddai ychydig o hiwmor yn codi'r cylchgrawn o'i wastadrwydd arferol.

Serch hyn oll, rwy'n dra diolchgar fod Cyngor y Celfyddydau wedi gweld yn dda i sicrhau dyfodol *Pais* am dipyn eto.

# Y cyfeillion yn galw

**Yn erthygl flaen *Y Dinesydd*, beth amser yn ôl, gofynnwyd y cwestiwn, Ble mae'r Cyfeillion? Mae'n dda gan y swyddogion ddweud eu bod yn para'n fyw, ac, ar ôl bwlyddyn llawn gofidiau, yn mynd ymlaen o nerth i nerth. A dyma gyfle gwych i'r Dinesydd helpu!**

Chi'n gweld, yn un rhan o'i waith, mae'r "Cyfeillion" yn gweithio cynllun syml. Cael gwybodaeth gan gymdeithasau, cwmnïau, unigolion ac ati sy'n mynd i lwyfannu drama neu ryw gynhyrchiad dramatig tebyg, a rhoi'r wybodaeth honno i'r holl gyfeillion — dros dri chant ohonynt i gyd. Ond all y cynllun hwn ddim gweithio oni cheir y wybodaeth. A gaf fi wneud apêl, felly, ar i bob un sy'n mynd i lwyfannu gwaith dramatig gysylltu â Mr. W. J. Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (756282). Ar gyfer llythyr cyntaf y flwyddyn hon, bu'n rhaid inni weithio'n galed i geisio casglu gwybodaeth. Fe glywsom fod dramâu gan Y Tabernacl a Heol y Crwys a Heol y Minni a Salem Canton. Yna, bu'n rhaid ffonio o gwmpas i holi. Fe glywsom, wedyn, fod Cwmni Drama'r Eisteddfod yn bwriadu cynhyrchu rhywbeth rywbryd. Mwy o ffonio a mwy o holi. Clywed, wedyn, fod drama gan Michael Povey yn mynd i gael ei llwyfannu yn Theatr Penfro. A dyma newydd sbon yn dod i ni yn *Y Dinesydd* diwethaf, sef fod drama ar y gweill gan fyfyrwyr Coleg y Castell. Nawr, rhaid i'r bobl dda yma sy'n gweithio mor galed ddeall y gallwn ni eu helpu. Gallwn sicrhau cynulleidfa gref iddynt, gyda thipyn o lwc.

Rhan arall o'n gwaith yw ceisio hybu gwaith dramatig yn y ddinas. Efallai y carech wybod fod tair noson o ddramâu yn Arena Y Sherman ar y nosweithiau hyn. Ebrill 30, Mai 1, Mai 2. Y perfformwyr yw cymdeithasau drama Crwys, Y Tabernacl, Dewi Sant a Salem, Canton. Mae'r Cyfeillion yn falch cael cydweithio ynglŷn â'r cynhyrchion hyn.

Rydym hefyd, y munud yma, yn trefnu taith i Stratford ar Afon i weld *Merry Wives of Windsor*. Y dyddiad yw Sadwrn, Mai 26ain, 1979. Mae'r ddrama hon mor boblogaidd nes ei bod yn goblyn o anodd cael tocynnau, ond mae'n trysorydd, Alcwyn Evans, wedi llwyddo i gael tocynnau da am bris rhesymol. Byddwn yn cychwyn am wyth o'r gloch y bore, mewn bws moethus, ac yn cychwyn yn ôl o Stratford am 7.00 y nos. Y gost (drama a bws) yw £6.50 y pen. Bargen os bu un erioed, ac mae'r tocynnau'n mynd fel tatw poeth. Os ydych am ragor o wybodaeth ac am ddod gyda ni, rhaid ichi ymaelodi drwy anfon £1.50 (£2 i ŵr a gwraig) i: Cyfeillion y Theatr Gymraeg, Theatr y Sherman, Caerdydd. Chewch chi ddim tocynnau i'r ddrama yn Y Sherman. Y cam cyntaf yw ymaelodi. Mae'r tocynnau a'r manylion am seddau gan Mr Alcwyn Evans, 16 Parc Romilly, Y Barri.

Gaf fi ddefnyddio'ch tudalennau i ymddiheuro, plîs? Fe anfonson ni at Y Cyfeillion i ddweud y byddai noson o'r pethe yn Theatr Penfro ar nos Iau, Mawrth y cyntaf. Cawsom y wybodaeth gan Mr Norman Florence, trenfydd y noson. Er i ni gael si fod pethau'n mynd o chwith, chawsom ni ddim gwybod i'r cyfan gael ei ddiddymu nes y nos Fawrth cyn hynny — yn rhy hwyr i ddweud wrth neb. Rhaid imi ddweud (gan eich bod chi mor barod i'n beirniadu ni, Mr. Dinesydd) fod y diffyg cyfathrebu yma'n rhemp yn y ddinas. Un ymgais yn unig i setlo'r broblem yw creu'r "Cyfeillion". Ymgais arall yw'r Dinesydd, wrth gwrs. Gyda'n gilydd, siawns na wnawn ni rywbeth i gael y llaw dde i wybod beth mae'r llaw chwith yn ei wneud.

CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU

## CYFIEITHYDD

**(Gwaith rhan amser)**

Gwahoddir ceisiadau gan bobl â'r cymwysterau priodol i ymgymryd â'r gwaith o gyfieithu dogfennau a gohebiaeth o'r Saesneg i'r Gymraeg ac o'r Gymraeg i'r Saesneg.

Am ragor o fanylion ynglŷn â thelerau a natur y gwaith ysgrifenwch at y Cyfarwyddwr, Mr Aneurin Thomas, Cyngor Celfyddydau Cymru, Stryd yr Amgueddfa, Caerdydd.

# DAU BENODIAD NEWYDD

**Penodwyd Mr. J. Geraint Jenkins, Ceidwad y Casgliadau Materol yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, yn Guradur Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru, y sefydliad newydd a agorwyd gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn ardal dociau Caerdydd ddwy flynedd yn ôl. Y mae'n olynu'r diweddar Mr. D. Morgan Rees.**

Addysgwyd Mr. Jenkins yn Ysgol Ramadeg Aberteifi, a cholegau'r Brifysgol yn Abertawe ac Aberystwyth, lle graddiodd mewn Daearyddiaeth ac Anthropoleg. Y mae ganddo 27 mlynedd o brofiad o weithio mewn amgueddfeydd. Bu yn Leicester a Reading cyn ymuno â staff yr Amgueddfa Werin lle bu'n Is-Geidwad o 1960-68 ac yn Geidwad Adran Diwylliant Materol o 1968-77. Penodwyd ef yn Geidwad y Casgliadau Materol ddwy flynedd yn ôl.

Y mae Mr. Jenkins yn aelod o nifer o gyrff proffesiynol — y mae'n Gymrawd o'r canlynol: y Museums Association, y Royal Antiquarian Society a'r Society of Antiquarians. Ef yw Cadeirydd y Society for the Interpretation of Britain's Heritage. Cyhoeddodd 25 o lyfrau sy'n ymwneud ag agweddau ar y diwydiannau gwledig. Yn eu plith y mae *The Welsh Woollen Industry, Nets and Coracles*, a *Life and Traditions of Rural Wales*.

Ganed Mr. Jenkins, sy'n Gymro Cymraeg, yn Llangrannog, Dyfed, ac y mae'n adnabyddus fel darlledwr. Y mae'n briod a chanddo dri mab.

## SWYDDOG CYLLID CYNGOR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU

**Penodwyd Mr. Owen Glyn Jones i'r swydd uchod a dechrueodd ar ei waith ar Fawrth 19eg.**

Brodor o Flaenau Ffestiniog yw Mr. Jones. Mae'n 35 mlwydd oed a bu'n swyddog yn Adran Tollau Tramor a Chartref y Gwasanaeth Sifil ers 1961. Bu'n gweithio am gyfnodau yn Newcastle, Dover, Aberdaugleddau a Phorthmadog ac mae ef a'i deulu'n byw yn Chargot Road, Llandaf, Caerdydd. Mae'n briod a chanddo dri mab, Huw, Gareth a Dafydd. Mae Huw a Gareth yn mynychu Ysgol Bryntaf a Dafydd gartref gyda'i fam. Mae Mr. Jones yn aelod o bwyllgor rheoli Canolfan yr Urdd, Caerdydd, ac yn arolygwr Ysgol Sul Ebeneser.

Fel Swyddog Cyllid y Cyngor bydd Mr. Jones yn gyfrifol i'r Cyfarwyddwr am gadw cyfrifon y Cyngor a'r Llys. Bydd hefyd yn gyfrifol am gyfrifon pob Eisteddfod.

Rhan bwysig o'i ddyletswyddau fydd cydweithio â Swyddogion Lleol a'u cynorthwyo gyda'u hamcangyfrifon. Yn hyn o beth bydd yn cydweithio â'r Trefnyddion er mwyn eu rhyddhau hwy i ganolbwyntio ar agweddau eraill o drefniadau'r Brifwyl.

Mae'r penodiad hwn yn cwblhau'r ad-drefnu yn staff yr Eisteddfod Genedlaethol a ddilynodd sefydlu'r Swyddfa Ganolog.

# DATHLU – yn Radur

**Does dim llawer ers pan fu Gus Jones yn ein diddanu gan sôn am fwydydd a chwmnïaeth yr hen amseroedd gynt ym mhlasdai ac ar aelwydydd y fro. Ar nos Wener yr ail o Fawrth ymgynullodd 95 o Gymry'r ardal i eistedd a chiniawa i ddathlu dydd gŵyl Ddewi yn Ysgol Gyfun Radur. Erbyn hyn yr awdurdod addysg biau'r neuaddau nid teulu Cwrt Radur gyfagos.**

**Ond nid llai yr hŵyl a'r diddanwch. Mae ffyniant Cymdeithas Bro Radur bellach yn eitha sicr — diolch i'r cadeirydd a'i bwyllgor egniol. Gwesteion y noson oedd y Dr. Meredydd Evans a'i briod Phyllis Kinney — Mered a Phyllis i bawb o Gymry Caerdydd. Mae eu hymroad i fywyd Cymraeg y ddinas tros gyfnod hir yn wybyddus i bawb.**

**Ond eu hagosatrwydd a chynhesrwydd eu canu a'u traethu a roes sêl llwyddiant ar y noson. Diddanwyd pawb gan eu canu hwyliog, eu cyflwyniadau ffraeth a naturiol, ambell ddirgelwch megis y pennill olaf nad oedd yn ffit i'w ganu (rhaid cael clywed hwnnw rywbryd eto!) a chân werin o wlad Phyllis i orffen.**

**Llwyddwyd y noson yn ddeheuig fel arfer gan Robin Jones a thalwyd diolch gan Bryan Jones.**

Gwynn Cadnant Griffith





**Ffenestr-siop**
**Y SIOP I CHI...**

Pan fyddwch chi'n ystyried gwelliannau i'r cartref, ac yn wynebu'r broblem o gael ffenestr neu ddrws.

Beth am... ddod i ymweld â'r arbenigwyr yng Nghanolfan Ffenestri De Cymru a gweld bron 100 mlynedd o brofiad o wneuthur ffenestri ar waith?

...weld y detholiad ehangaf posib o ffenestri a drysau patio o ansawdd dda, a'u gweld yn cael eu gwneud yn y fan a'r lle?

...weld sut y gellir arbed ar filiau gwresogi drwy dorri i lawr ar y gwres a gollir a chynyddu gwerth eich tŷ ar yr un pryd?

...dderbyn cyngor ar osod cyfarpar i mewn eich hunan — gellwch arbed 50% arall felly.

...edrych ar ein telerau hûr-bwrcas?

**Yn yr amserau caled hyn, synhwyrol yw edrych CYN prynu.**

**CANOLFAN FFENESTRI DE CYMRU**

Heol Curran, Caerdydd, tel. 388555
Llun-Gwen 9a.m. hyd 5p.m.,
Sad 9a.m. hyd hanner dydd.
Croeso mawr i'r Cyhoedd a'r Fasnach.

JONWINDOWS
*— yr enw y gellwch ymddiried ynddo* JWd
(Aelod o Grŵp John Williams o Gaerdydd Cyf.)


# A DATHLU ARALL — yn Lanedeyrn

*Cafodd y Gymdeithas noson ddifyr dros ben ar y 10fed o Fawrth yng nghanolfan Gymdeithasol Llanedeyrn, pan ddaeth llu o bobl ynghyd am noson o hwyl a difyrwch.*

*Carwn ddiolch i Dr. J. Gwynfor Jones am ei sylwadau diddorol dros ben ar wreiddiau Cymraeg ardaloedd Llanedeyrn a Phentwyn — a Llanrhymni hefyd. Diolch hefyd i Gwilym Roberts am ein hystwytho ni i gyd i'r llawr gyda thwmpath dawns bywiog iawn, a rhoddwyd sêl ar y noson gyda phryd rhagorol o fwyd wedi ei drefnu gan aelodau'r Gymdeithas. Diolch i bawb.*

*Os oes rhywrai eisiau ymuno â'r Gymdeithas, cysylltwch ar unwaith ag:*
*Avril Jones — 757514*
*Ann Bryan — 754525*
*Iwan Humphries — 750266*
*Y gost ydy £1.00 y pen am flwyddyn, ac mae'r cyfarfod nesaf ar yr 11fed o Fai.*

# GŴYL GORAWL

**Fe fydd y mwyafrif o ddarllenwyr y *Dinesydd* yn gwybod bod trydedd Ŵyl Gorawl Caerdydd newydd orffen, a gobeithio y byddant yn sylweddoli bod tri o'r cyngherddau wedi eu recordio gan H.T.V. i'w darlledu yn ystod y flwyddyn.**

Mae 'na ddigon o wyliau cerddorol yng nghylch Caerdydd yn barod, meddai rhai, a dim un lle addas i'w cynnal, ond mentrodd cwmni H.T.V. a Chôr Poliffonig Caerdydd ar lansio gŵyl arbennig i gorau ym 1977, ac yn ôl pob sôn ni fu'r ymdrech yn wastraff amser o bell ffordd.

Ceisir sicrhau cyfuniad o'r canu corawl traddodiadol sy'n denu'r Cymro ac elfennau mwy clasurol a modern hefyd. Er enghraifft, bu'r grŵp Swingle II yn canu yng ngŵyl 1978 a'r King's Singers eleni a chorau megis Côr Coleg Eglwys Crist, Rhydychen a'r Via-Nova Chor o Munich.

Cymysg yw rhaglen yr wythnos hefyd a cheir perfformiadau'n amrywio o ganu gwerin traddodiadol — a phenillion — i fotetau eglwysig a'r gweithiau "mawr" megis *Cread* Haydn ac *Offeren y Meirw* gan Mozart.

Ond 'ryn ni'n ddigon cyfarwydd â chlywed corau fel Côr Dyfed a Chôr Pontardulais a Pharti'r Ffin a'r Swingle II, meddech chi. Digon gwir; mae'r teledu a'r radio'n dod â nhw i'n haelwydydd ni'n gyson. Ond yr hyn na chewch chi bob amser ar y cyfryngau yw'r arweinyddion a'r unawdwyr a'r cerddorfeydd gorau yn y byd yn cyfeilio iddynt ac yn ei harwain. Gwelwyd Heather Harper, Stuart Burrows, Delme Bryn Jones, Stafford Dean a Neville Marriner gyda Cherdorfa'r Philharmonia, er enghraifft, yn perfformio *Cread* Haydn yng ngŵyl 1977. Chewch chi ddim cyfuniad o'r fath dalentau ar yr un llwyfan yn Llundain hyd yn oed bob dydd o'r wythnos, a dyna hwyrach oedd uchafbwynt yr ŵyl eleni.

Fe fu bron i'r eira gael y trecha ar y trefniadau a'r ymarferion eleni, ond er gwaethaf y tywydd llwyddodd Côr Dyfed i gyrraedd Neuadd y Ddinas yn ddiogel ar y Nos Iau, Chwefror 8, a Pharti'r Ffin ar Nos Wener, Chwefror 9. Ond fe fu bron i bethau fynd o chwith ar y dydd Sadwrn. Roedd Colin Davis i arwain Côr Poliffonig Caerdydd yn *Offeren y Meirw* gan Mozart, gyda Cherddorfa Symffoni Llundain, Ileana Cotrubas, Helen Watts, Stuart Burrows a Gwynne Howell. Rhaid oedd cael ymarfer yn y pnawn, ond os oedd hi'n edrych yn wael am 2 o'r gloch, roedd hi'n waeth fyth erbyn tua 6 a phawb yn dyfalu a fyddai yno gynulleidfa o gwbl. Ond pan oedd cloc Neuadd y Ddinas yn taro wyth, doedd na'r un sedd yn wag yn y Stafelloedd Ymgynnull. Perfformiwyd Symffoni Rhif 39 Mozart gan y gerddorfa yn yr hanner cyntaf, ac yna daeth uchafbwynt y noson.

Mae bron pob côr yn hen gyfarwydd â'r syniad poblogaidd am arweinyddion gwadd, yn enwedig yr arweinyddion "mawr". Dynion oeraidd, peniog, nodweddiadol o gerddorion proffesiynol yw'r mwyafrif ohonyn nhw. A dyna a ddisgwylid pan ddaeth Colin Davis i Gaerdydd y Dydd Sadwrn blaenorol i ymarfer y Côr Poliffonig — diwrnod y gêm rygbi rhwng Cymru a Iwerddon, os cofiwch chi. Ond chwarae teg, roedd e'n ddigon o ddyn i sylweddoli pe bai e'n gwrthod cytuno i gael ymarfer yn y bore ac yn hwyr y pnawn, na fyddai ganddo ddim côr rhwng tua dau a phedwar o'r gloch!

Roedd yr awr bwysig wedi cyrraedd; y gerddorfa wedi tiwnio, y côr yn ei le, a dyma bedwar o unawdwyr gorau'r byd — ie, goreuon y byd, a thri ohonyn nhw'n Gymry — yn cerdded yn urddasol i'w lleoedd o flaen ein llygaid. Ileana Cotrubas o Rwmania yw un o'r tair soprano fwyaf yn y byd heddiw yn sicr, ac roedd pawb ar bigau'r drain yn disgwyl clywed y llais bendigedig hwn yn y cnawd. Helen Watts, yr artist perffaith a'r cerddor mwyaf yn ddiamau ymhlith artistiaid mawr heddiw. Stuart Burrows annwyl a'r llais euraid hwnnw sy'n hudo cynulleidfaoedd o'r Amerig i seddau crandiaf Llundain. A Gwynne Howell, y Cymro addfwyn, diymhongar. Hwyrach mai ef yw'r lleiaf adnabyddus o'r pedwarawd y tu allan i Brydain, ond am lais! Mae'n gwneud i chi feddwl am gar drud iawn, rhywbeth fel Lamborghini, yn gweithio'n berffaith ond bod 'na gêr ychwanegol wrth law bob amser, yr "overdrive"!

Mae hanes cyfansoddi *Offeren y Meirw* yn rhamantus ynddo'i hun. Mozart fawr ar ei wely angau yn ceisio gorffen y gwaith ac yn hollol argyhoeddedig ei fod yn cyfansoddi ei offeren ei hun. Mae perfformio'r gwaith yn brofiad ynddo'i hun, ond dychmygwch y wefr o gael y pencampwr ar weithiau Mozart, sef Colin Davis, o'ch blaen un o gerddorfeydd gorau Llundain yn cyfeirio i chi, a'r pedwar llais anfarwol yma yn canu yn yr un neuadd â chi, yn yr un perfformiad â chi! Nid gwefr yw'r gair, ond profiad; profiad arbennig, prin. Gobeithio y cewch chi rywfaint o'r wefr a'r profiad wrth i chi wylio a gwrando ar y perfformiad pan gaiff ei ddarlledu ar Deledu H.T.V. yn ystod y flwyddyn.

# MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

# Rhagolygon am ŵyl dda...

**Chwiliwch am yr arwyddlun yma yn ystod yr wythnos Ebrill 30—Mai 5ed. Dyma arwyddlun newydd Mudiad Ysgolion Meithrin, a pha le bynnag y gwelwch hwn, byddwch yn sicr fod Mudiad Ysgolion Meithrin yno hefyd. Dyma'r tro cyntaf inni fel Mudiad ddathlu Gŵyl Genedlaethol a threfnir amrywiaeth o weithgareddau hyd a lled y wlad.**

Yma yn Ne Morgannwg bydd pob cylch meithrin yn agor ei ddrysau yn ystod yr wythnos ac yn eich gwahodd chi i mewn i'w plith, ac yn trefnu amryw weithgareddau gyda'r nos.

Trwy gydol yr wythnos hefyd bydd arddangosfa o gelfyddyd plant dan bump oed yng Nghanolfan Celfyddydau Theatr y Chapter yng Nghanton, ac ar y dydd Mercher, yr 2ail o Fai, bydd gwahoddiad i blant dan bump i fynd yno i arlunio a phaentio, chwarae gyda chlai ac ati.

Yng nghanol dinas Caerdydd yn ystod yr wythnos, cofiwch chwilio am chwyrligwgan, lle gwerthir balwnau — bydd cyfle i bawb gymryd rhan mewn ras balwnau ar y dydd Sadwrn, pan ollyngir nhw ar eu hynt i'r awyr agored. A'r wobr? £10 i'r enillydd a thymor yn rhad ac am ddim mewn ysgol feithrin! Defnyddir yr elw o'r enw ras balwnau i dalu am athrawes feithrin i weithio am gyfnod mewn un o ysbytai'r sir.

Heb anghofio'r oedolion, trefnir am y tro cyntaf erioed i rieni yr ysgolion meithrin a phawb arall sy'n ymwneud ag addysg Gymraeg yn y sir, i ddod ynghyd ar nos Fawrth, Mai 1af, am Noson Gymdeithasol yng Nghlwb Trydan Pontcanna o 8p.m. tan canol nos. Cost y noson fydd £1.50 a bydd hyn yn cynnwys pryd o fwyd mewn basged, ac adloniant.

Amcan yr ŵyl ydy ceisio pontio rhwng y Cymry Cymraeg a'r Cymry di-Gymraeg — felly pawb sy'n darllen yr erthygl yma, os oes gennych ffrindiau neu gymdogion a diddordeb, ond heb eu darbwyllo am werth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, rhowch nhw mewn cysylltiad a'r cylch meithrin agosaf. Unrhyw wybodaeth ychwanegol ar gael oddiwrth:

Avril Jones — 757514
Eleri Jones — 842105
Teleri Gray — 499607
neu Swyddfa'r Mudiad: 612690.

**Avril Jones**

# ...ond nodyn o bryder

**Wrth baratoi ar gyfer ein gŵyl gyntaf fel Mudiad, mae rhai nodau echrydus yn taro ein mynwes. Rwy'n cyfeirio wrth gwrs at fwriad Pwyllgor Addysg De Morgannwg i gyfyngu rhif y plant sy'n mynd i Ysgolion Cynradd Cymraeg yng Nghaerdydd i 90, er fod erbyn hyn dros 105 yn barod am addysg gynradd ym mis Medi. Gyda chyfyngder o'r math yma ni fyddai gobaith inni ddatblygu llawer iawn mwy yn y sir. A phwy allai gyfiawnhau y fath anghyfiawnder i rieni sy'n mynnu yr haul i'w plant siarad Cymraeg — a hynny trwy aberth a chwys eu llafur eu hunain — plant na fyddai dilyniant iddynt tu hwnt i'r ysgol feithrin!**

Ond yn awr at newyddion y cylchoedd. Agorwyd cylch meithrin Llanrhymni yng nghanol mis Chwefror, gyda 4 o blant. Mae'r ysgol ar hyn o bryd heb athrawes barhaol, a diolchwn i Mrs. Dorinda Pugh am fod mor barod i'w llywio yn yr wythnosau cyntaf. Apeliaf yn daer am athrawes i'r cylch meithrin yma — mae cymaint o angen arweiniad mewn ysgol newydd, yn enwedig mewn ardal Seisnig ei hansawdd; hefyd, gofynnwn am gefnogaeth caredig unrhyw drigolion Cymraeg yn yr ardal i helpu'r ysgol feithrin fach newydd i ffynnu. Os gall unrhyw un helpu, ffoniwch fi, Avril Jones. Ffôn: 757514.

Ffarweliwn ag un o'n hathrawon ffyddlonaf, sef Miss Williams, Ysgol Feithrin Llandâf.

Diolchwn iddi am ei holl waith dros y blynyddoedd, a dymunwn yn dda iddi yn ei hymddeoliad. Ar yr un modd croesawn Mrs. Gaynor Walter Jones fel athrawes newydd Llandaf.

**Avril Jones**
**Swyddog Datblygu**

# LLAIS...

# Radio Caerdydd yn galw

**Nos Sul, Mawrth 4, cynha iwyd cyfarfod yn Festri Capel Heol y Crwys, gyda chynrychiolwyr o brif Gymdeithasau Cymraeg y ddinas yn bresennol, i gychwyn trafod y mater o sefydlu Gorsaf Radio Lleol yng Nghaerdydd.**

Oherwydd fod cyfarfod cyhoeddus wedi ei drefnu gan yr Awdurdod Darlledu Annibynnol ar gyfer y nos Lun canlynol gyda'r bwriad o roi cyfle i ddinasyddion Caerdydd i fynegi barn a dymuniad ynglŷn â'r Orsaf Radio, cytunwyd ei bod yn bwysig i gael presenoldeb Cymraeg effeithiol yn y cyfarfod hwnnw. Buwyd yn trin rhai o'r pwyntiau y dylid eu cyflwyno i gynrychiolwyr yr Awdurdød yn ystod cyfarfod nos Lun a gofynwyd i dri pherson ymgymryd â gwneud hynny, sef Mair Elfed Thomas, Alun Ogwen a John Albert Evans. (Ceir adroddiad am y cyfarfod cyhoeddus yn y colofnau nesaf.)

Penderfynwyd hefyd y dylid llunio datganiad ffurfiol a'i anfon i'r Awdurdod Darlledu Annibynnol yn pwyso ar i'r corff hwnnw ofalu bod darparu gwasanaeth teilwng, cadarnhaol, ar gyfer Cymry Cymraeg Caerdydd a'r cylch, yn amod y byddai'n rhaid ei chyflawni os am ganiatáu trwydded weithredu i unrhyw gwmni a wnâi gais amdani. Gosodwyd y cyfrifoldeb am hyn yn nwylo Meredydd Evans ac aeth yntau ati yn ddiymdroi i lunio ac anfon datganiad ymlaen i'r Awdurdod.

Y mater olaf a drafodwyd oedd yr angen am ffurfio pwyllgor (yn cynrychioli'r Cymdeithasau Cymraeg) i gadw golwg ar ddarpariaeth Gymraeg y cwmni llwyddiannus cyn, ac wedi, i hwnnw ymaflyd yn ei waith. Cytunwyd bod galw am bwyllgor o'r fath a, chyn bo hir, bwriedir galw cynrychiolwyr y Cymdeithasau ynghyd i gyfarfod lle gellir penodi aelodau'r pwyllgor hwnnw.

Cadwed swyddogion pob Cymdeithas eu llygaid yn agored ar rifyn nesaf Y DINESYDD; ceir yn hwnnw ddyddiad a lle'r cyfarfod pwysig hwn.

**Meredydd Evans**

Y COLEG NORMAL BANGOR

Prifathro Dr. J.A. Davies

Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon 1979

Estynnir gwahoddiad cynnes iawn i Eisteddfodwyr i aros yn y Coleg Normal, yn arbennig Cyn-Fyfyrwyr y Coleg. Anfonwch am fanylion pellach at y Cofrestrydd, Y Coleg Normal, Bangor, Gwynedd. Tel. Bangor 52121.

**Achlysur i'r Awdurdod Darlledu Annibynnol (ADA) wrando llais y werin; cyfle i arweinwyr y gymdeithas fynegi'u dyheadau; beth bynnag y bwriadwyd i'r cyfarfod a gynhaliwyd yn Neuadd y Ddinas nos Lun, Mawrth 5ed, fod, rhyw ymarfer boneddigeiddrwydd ar ran yr ADA yn gyhoeddus ydoedd.**

**Cynigir cytundeb i gwmni i gynnal radio masnachol Caerdydd ymhen mis neu ddau ac yna fe fydd darlledu'n dechrau ymhen tua blwyddyn.**

**Trwy ymdrechion rhai aelodau goleuedig o bwyllgor Cymru yr ADA a'i swyddogion yng Nghymru, Mri. Lyn Evans, Eirion Lewis a Dennis Francis, mae'r awdurdod yn ymwybodol yn barod o'u dyletswydd ynglŷn â darlledu yn Gymraeg. Gosodwyd cymal yng nghytundeb Radio Abertawe i ddarlledu 10 y cant o'u hamser yn Gymraeg a'u cyfartaledd ar hyn o bryd yw 12 y cant. Plesio a denu'r gwrandawyr yw nod gorsaf fasnachol er mwyn cael hysbysebion.**

**Cytuno ynglŷn â darlledu yn Gymraeg oedd awyddfryd y cyfarfod. Soniodd Mr. John Albert Evans am yr Urdd a'r dysgwyr a Mair Elfed am raglenni gwragedd a phlant Cymraeg, y Parch. D.T. Evans am fywyd ysbrydol yr Eglwysi Cymraeg. Cytunodd aelod o'r awdurdod dros Gymru, yr Athro Huw Morris Jones, fod, efallai, mwy o Gymry Cymraeg yng Nghaerdydd yn awr nag erioed o'r blaen. Mae'n wir y clywyd "Cardiff man" yn gwrthwynebu darlledu dim yn Gymraeg ond unig oedd ei lais a bach o gefnogaeth a gafodd. Llwyddodd i godi tymheredd y cyfarfod ychydig ac o'r herwydd cafodd sylw'r Western Mail a, mwya'r syndod, gohebydd "Heddiw".**

**Dywedwyd hefyd os yw'r cymdeithasau Cymraeg gyda'u doniau niferus a'u hamryfal weithgareddau i gyfrannu'n llawn i'r orsaf dylid sicrhau uned darlledu allanol gan y cwmni a enilla'r cytundeb. Yna fe ddangosir bywyd y ddinas yn gyflawnach ac osgoi recordiau, adroddiadau, cyfweliadau a sgyrsiau di-ben draw; sicrheir ambell ddatganiad côr, noson lawen neu ddrama leol.**

**Erbyn y bydd y cwmni'n dechrau darlledu mae Cymry selog y ddinas am weld pwyllgor o wrandawyr yn gofalu am eu buddiannau diwylliannol. Dywedodd Dr. Meredydd Evans y byddai hyn yn atodol i'r pwyllgor swyddogol cyffredinol a gaiff ei sefydlu. Cyflwynir datganiad ysgrifenedig hefyd ar ran Cymdeithasau Cymraeg y ddinas a'r awdurdod cyn iddynt benderfynu ar gwmni.**

**Alun Ogwen**

# ...A LLYFR

## Gwobrau i awduron 1979

**Gwobrwyir 10 o awduron gan Gyngor Celfyddydau Cymru eleni am weithiau a gyhoeddwyd ai yn Gymraeg (4) neu yn Saesneg (6), a chyflwynir y gwobrau iddynt gan Mr. Dafydd Elis Thomas, A.S., yn Oriel, Heol Siarl, Caerdydd, nos Wener, Ebrill 6.**

O'r 10 mae pedwar yn byw yn ein plith, sef Marian Eames (awdur adnabyddus 'Hela Cnau' — yn y rhandir mwyn?); Gillian Clarke ('The Sun Dial'; merch y diweddar Penry Williams, y peiriannydd BBC gynt, yw Gillian); Emyr Humphreys ('The Best of Friends'. Mae Emyr yn dal yn un o'n prif awduron) a Gwyn Alfred Williams ('The Merthyr Rising' — ffrwydriad o lyfr?).

Y rhai eraill a wobrwyir yw Dic Jones ('Storm Awst' — teitl hyfryd o amwys!) J.E. Williams ('Betws Hirfaen' — cofir am ei lyfr hyfryd, 'Pigau'r Ser' hefyd), John Rowlands ('Tician Tician' — bom?) Tristan Jones ('The Incredible Voyage' — stori am anturiaethau gwirioneddol anhygoel), James Hanley ('The Kingdom') a'r bardd o Ferthyr, Leslie Norris ('Sliding').

LLONGYFARCHIADAU CALONNOG IDDYNT I GYD

Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd. Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf., Lower Cathedral Road, Caerdydd; Ffôn: (0222) 396262.